| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | CYNGOR |
| **DYDDIAD** | 6 Mawrth 2015 |
| **PENNAWD** | DIWYGIADAU CYFANSODDIAD |
| **PWRPAS** | I adrodd ar addasiadau i'r cyfansoddiad. |
| **ARGYMHELLIAD** | Bod y Cyngor yn derbyn yr adroddiad |
| **AELOD CABINET** | Cyng. Dyfed Edwards, Arweinydd y Cyngor. |
| **AWDUR** | Iwan G D Evans - Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol – Swyddog Monitro |

## 1. Cyflwyniad

Fe fabwysiadwyd Cyfansoddiad diwygiedig gan y Cyngor ar 17 Gorffennaf 2014. Adroddwyd ar newidiadau pellach yn Hydref 2014. Yn ddiweddarach yn Ionawr 2015 bu i'r Arweinydd y Cyngor ail drefnu Portffolios Aelodau'r Cabinet ac mae angen adrodd yn ffurfiol ar hyn i'r Cyngor. Yn ogystal wrth symud y cyfansoddiad newydd ymlaen i'w argraffu ac o'i weithredu daeth i'r amlwg fod angen darparu eglurdeb ynglŷn â chyfnodau rhybudd.

## 2. Portffolios

Mae'r portffolios newydd wedi eu gosod yn Atodlen 1

## 3. Man Addasiad

Mae'r Cyfansoddiad Newydd yn rheol 2.6.2 yn caniatáu'r Swyddog Monitro i wneud man amrywiadau i'r cyfansoddiad.

> "Os, ym marn resymol y Swyddog Monitro, yw newid yn:
>
> (a) fân amrywiad; neu'n

(b) ofynnol er mwyn dileu unrhyw anghysondeb neu amwysedd, neu er mwyn gwneud cywiriad argraffyddol; neu’n

(c) ofynnol er mwyn gweithredu unrhyw benderfyniad gan y Cyngor neu ei bwyllgorau neu’r Cabinet,

yna caiff y Swyddog Monitro wneud newid o’r fath. Bydd unrhyw newid o’r fath a wnaed gan y Swyddog Monitro yn dod i rym ar unwaith. Bydd newidiadau o’r fath yn cael eu hadrodd i gyfarfod nesaf y Cyngor Llawn er gwybodaeth.”

Roeddwn o’r farn nad oedd y Rheolau Gweithdrefn yn eglur ynglŷn â diffinio cyfnodau rhybudd yn gyson. Nid yw o hyd yn eglur pa ddiwrnodau sydd wedi eu hymgorffori mewn cyfnod rhybudd. Roedd darpariaeth yn y cyfansoddiad blaenorol oedd yn diffinio hyn ac yn darparu eglurdeb. . Er sicrhau eglurder rwyf wedi ychwanegu diffiniad cyffredinol sydd yn adlewyrchu yr cyfansoddiad blaenorol. Ychwanegwyd y geiriad canlynol o fewn Adran 2.2 Diffiniadau:

“Yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth statudol neu ble nodir i’r gwrthwyneb yn benodol mae unrhyw gyfeiriad mewn unrhyw reol gweithdrefn at "ddiwrnod" neu "ddiwrnodau" yn golygu dyddiau gwaith y cyngor ac nid yw yn cynnwys y diwrnod y rhoddir y rhybudd nac ychwaith y diwrnod y cynhelir y cyfarfod mae'r rhybudd yn ymwneud ag ef.”

**Argymhelliad**

**Fod y Cyngor yn derbyn yr adroddiad**

Atodiad 1

| **Enw** | **Portffolio** | **Prif Feysydd Swyddogaethol** |
|---|---|---|
| Cynghorydd Dyfed Edwards | Arweinydd | Arweiniad Strategol; Cynllunio Busnes<br>Bwrdd Gwasanaethau Lleol |
| Cynghorydd Dyfrig Siencyn | Dirprwy Arweinydd | Cefnogaeth Polisi a Chorfforaethol, Cyfathrebu, Ymgysylltu, Trydydd Sector |
| Cynghorydd Mair Rowlands | Plant a Phobl Ifanc | Plant a Phobl Ifanc; Hamdden ac Ieuenctid |
| Cynghorydd Gareth Roberts | Oedolion ac Iechyd | Oedolion ac Iechyd |
| Cynghorydd Gareth Thomas | Addysg | Addysg ac ysgolion |
| Cynghorydd Mandy Williams-Davies | Economi | Economi, Adfywio; Caffael, Morwrol, Diwylliant |
| Cynghorydd Dafydd Meurig | Cynllunio a Rheoleiddio | Rheoleiddio (ac eithrio agenda “Carbon”) |
| Cynghorydd Peredur Jenkins | Adnoddau | Cyllid, Adnoddau Dynol; Trawsffurfio, Technoleg Gwybodaeth ac Argraffdy |
| Cynghorydd Ioan Thomas | Tai, Gofal Cwsmer Llyfrgelloedd, Iaith Amddifadedd a Chydraddoldeb | Gwasanaeth Tai, Gofal Cwsmer, Llyfrgelloedd a rhaglenni ynglŷn ag Iaith, Amddifadedd a Chydraddoldeb |
| Cynghorydd John Wynn Jones | Amgylchedd | Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Ymgynghoriaeth Gwynedd, Asiantaeth Cefnffyrdd, agenda “Carbon” |